Adroddiad i'r:	**Pwyllgor Craffu Perfformiad**
Dyddiad y cyfarfod:	**18 Mawrth, 2021**
Aelod Arweiniol / Swyddog:	**Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio** **Julian Thompson-Hill – Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol**
Awdur yr Adroddiad:	**Iolo McGregor, Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad ac Emma Horan, Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad**
Teitl	**Adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, Chwefror 2021**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y wybodaeth ddiweddaraf am adolygiad mis Chwefror o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr adolygiad diweddaraf o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. 3.1. Bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ystyried y diwygiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (atodiad 1), gan gynnwys statws pob risg yn erbyn ein Datganiad Archwaeth Risg (atodiad 2).

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth sydd yn datblygu a pherchen ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ochr yn ochr â'r Cabinet. Caiff ei hadolygu'n ffurfiol ddwywaith y flwyddyn gan y Cabinet yn ystod sesiwn friffio'r Cabinet.

4.2. Yn dilyn pob adolygiad ffurfiol, caiff y gofrestr ddiwygiedig ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a'i rhannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

4.3. Cyflawnwyd yr adolygiad diwethaf ym mis Medi 2020. Mae'r dogfennau perthnasol i'r adolygiad hwnnw i'w gweld ar y wê

4.4. Mae dull archwaeth risg y Cyngor (atodiad 2) wedi'i gymhwyso i'r trafodaethau a gawsom gyda pherchnogion risg, a dadansoddir ein hamlygiad risg (yn seiliedig ar y sgôr) yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol (atodiad 1).

4.5. Yn ystod yr adolygiad diweddaraf, mae nifer o ddiweddariadau wedi bod o ran disgrifiadau risg, effeithiau/ canlyniadau a chamau gweithredu. Mae ychydig o risgiau wedi cael eu sgorio o'r newydd. Gwnaed y newidiadau hyn i'r gofrestr risg ac fe'u nodir ar ddechrau pob risg yn atodiad 1.

4.6. I grynhoi:

- Does dim risgiau newydd.
- Mae ein risg o ran amserlen y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) (risg 46, a ychwanegwyd yn ystod yr adolygiad diwethaf) bellach wedi'i dileu o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn dilyn gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru sy'n cadarnhau y bydd y CDLl presennol yn parhau i gael ei ddefnyddio nes i Gynllun newydd gael ei fabwysiadu. Credir mai bach iawn yw'r risg y caiff ein llinell amser newydd ei gwrthod, ond caiff hyn ei reoli drwy'r Gofrestr Risg Gwasanaeth perthnasol.
- Mae Risg 14 (iechyd a diogelwch) wedi cynyddu ychydig yn ei thebygolrwydd gweddilliol, i adlewyrchu Covid-19, o E2 – Risg Gymedrol: Effaith Prin/ Uchel i D2 - Risg Fawr: Effaith Annhebygol / Uchel.
- Mae Risg 35 (Y Fargen Twf Ranbarthol) wedi gostwng yn ei thebygolrwydd a'i difrifoldeb, oherwydd bod y Fargen Dwf wedi'i llofnodi a bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith, o C2 – Risg Fawr: Effaith Posibl i Uchel i D3 - Risg Gymedrol: Annhebygol / Canolig.
- Mae Risg 36 (yr Undeb Ewropeaidd) wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r ffaith bod y DU wedi symud y tu hwnt i'r cyfnod pontio. Mae'r risg weddilliol wedi'i

hisraddio o B1 – Risg Gritigol: Effaith Debygol / Uchel Iawn i B2 – Risg Gritigol: Effaith Tebygol / Uchel.

- Mae Risg 44 (clefyd coed ynn) wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r newid yn y dull gweithredu o ystyried nad yw ateb cydweithredol yn cael ei geisio mwyach.

- Mae Risgiau 1, 6, 13, 14, 21, 27, 33, 34, 36, 37 a 44 (gweler atodiad 1) yn anghyson ar hyn o bryd gyda Datganiad Archwaeth Risg y Cyngor (atodiad 2). Mae'r rhain wedi cael eu hadolygu mewn trafodaethau gyda pherchnogion risg, a'u sgorio cyfredol wedi cael eu cytuno i fod yn briodol. Mae'r anghysonder yn cyfiawnhau bod eu cynhwysiant yn cael eu monitro fel risgiau corfforaethol. Roedd ein hadolygiad ym mis Medi 2020 yn cynnwys cyfanswm o 11 risg (allan o gyfanswm o 21) a oedd yn anghyson â'n harchwaeth risg. Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys 11 (allan o gyfanswm o 20), oherwydd cafodd risg 46 (CDLl) ei dileu, ond difrifoldeb cynyddol risg 14 (mae esboniad uchod). Felly, mae 55% o risgiau corfforaethol yn anghyson â datganiad archwaeth risg y Cyngor.

- Lle bo'n briodol, mae'r wybodaeth ariannol wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf y gyllideb.

- Mae'r holl risgiau wedi'u hadolygu i adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf o ran Covid-19, a fydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth uniongyrchol i'r Cyngor.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Diben y Gofrestr Risg Gorfforaethol yw amlygu digwyddiadau posibl yn y dyfodol a allai gael effaith niweidiol ar allu'r cyngor i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys ei flaenoriaethau corfforaethol. Mae'r camau rheoli a gweithredu a amlygir felly'n hanfodol ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae costau datblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau cyfredol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn dogfennu risgiau sydd wedi'u canfod, a'r camau lliniaru. Nid yw'r broses o ddatblygu ac adolygu'r ddogfen ei hun yn cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r nodau lles. Fodd bynnag, dylid asesu effaith ar les ar gyfer unrhyw broses, strategaeth neu bolisi newydd sy'n cael eu llunio o ganlyniad i gam lliniaru.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cynhaliwyd trafodaethau unigol gyda Pherchnogion Risg (Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol), gan gynnwys mewnbwn gan swyddogion sy'n arwain ar gamau gweithredu pellach er enghraifft.

8.2. Ceir trafodaeth wedyn am y gofrestr gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet i gytuno a/ neu wneud diwygiadau pellach.

8.3. Mae'r gofrestr wedi'i ddiweddaru yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad, a'i rannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi wrth ddatblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r adolygiad hwn.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Mae Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 200 yn amlinellu pwerau'r swyddogaeth Graffu, tra bo Adran 7.2.1 Cyfansoddiad y Cyngor yn mynnu y dylai'r gwasanaeth Craffu adolygu neu archwilio penderfyniadau a wnaed neu gamau

a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor, boed hynny gan y Cabinet neu ran arall o'r Cyngor.